



Heddlu Police
DYFED-POWYS

facebook



Sgamiau Facebook Marketplace...

Hoffai Heddlu Dyfed Powys atgoffa pobl i fod yn ofalus wrth brynu a gwerthu eitemau ar Facebook Marketplace a pheidio â chael eu dal gan y triciau mae troseddwr yn eu defnyddio i sgamio pobl o'u harian.

Dyfais gyffredin gan droseddwr yw dweud eu bod yn anfon cludwr i gasglu'r nwyddau, a bod y cludwr yn dod â'r arian gyda nhw. Mae'r troseddwr wedyn yn dweud y bydd y cwmni cludo'n cysylltu i drefnu casglu'r nwyddau. Yna bydd y gwerthwr yn derbyn anfoneb gan y cwmni cludo (fel arfer anfoneb ffug yn honni bod o gwmni cludo adnabyddus).

Mae'r troseddwr yn dweud y bydd y cludwr yn dod â'r pris prynu a'r arian ychwanegol o'r anfoneb gyda nhw, ond yn amlwg celwydd yw hwn.

Sut i gadw'n ddiogel ar Facebook Marketplace.

- Peidiwch byth ag anfon eitemau cyn i chi dderbyn taliad wedi ei 'wirio'.
- Weithiau mae negeseuon ebost ffug yn cael eu hanfon yn honni eu bod o fanc y prynwr ac yn nodi na fydd arian yn cael ei ryddhau hyd nes y derbynnir prawf o'r prynu - sgâm yw hon, dydy'r ebost ddim oddi wrth fanc y prynwr.
- Gwiriwch bob tro bod yr arian wedi ei dderbyn a'i glirio yn eich cyfrif ac nad yw o hyd 'yn disgwyl ei gadarnhau'.
- Peidiwch â defnyddio dulliau anghyffredin o dalu - defnyddiwch Facebook Checkout, PayPal neu arian parod yn unig wrth ddefnyddio Facebook Marketplace.
- Os ydych yn defnyddio PayPal – peidiwch byth â dethol taliadau teulu a ffrindiau – bydd hyn yn llwyr negyddu eich gallu i gael ad-daliad.
- Byddwch yn wyliadwrus o unrhyw un sy'n gordalu ac yna'n gwneud cais am ad-daliad ar unwaith. Sicrhewch eich bod bob amser yn gadael i'r arian glirio yn eich cyfrif yn gyntaf ac yna dechreuwch drafodaeth ynghylch gordalu drwy gamgymeriad. Mae'n anghyffredin iawn i rywun ordalu, ond mae troseddwr yn defnyddio'r ddyfais hon yn aml.
- Os bydd prynwr yn cynnig rhan-gyfnewid i chi, sicrhewch nad ydynt yn cynnig nwyddau wedi eu dwyn i chi yn gyfnewid.
- Os ydych yn cwrdd yn bersonol gydag unrhyw brynwr ar Facebook, ystyriwch eich diogelwch eich hun – cyfarfyddwch mewn lle cyhoeddus wedi ei oleuo'n dda a cheisiwch gael aelod o'r teulu neu ffrind gyda chi.



Heddlu Police
DYFED-POWYS